Ymweliadau gwaith maes a chyfweliadau – briff ar gyfer cynrychiolwyr o sefydliadau partner a budd-ddeiliaid eraill

Mae'n bwysig fod pawb yn deall natur a chanolbwynt yr adolygiad a pham y cânt eu gweld. Cyn cyfarfod ag aelodau'r tîm cyd-adolygu, dylech gael eich hysbysu am natur a diben yr ymweliad neu'r cyfweliad.

Bydd swyddog cyswllt y gwasanaethau cymdeithasol:

- yn gwneud trefniadau ar gyfer y cyfweliad neu'r cyfarfod;
- yn darparu copi o'r daflen ynglŷn â'r cyd-adolygiadau ar gyfer partneriaid a budd-ddeiliaid;
- yn eich hysbysu os oes unrhyw themâu penodol y mae'r tîm yn dymuno eu harchwilio gyda chi.

Cewch wybod enw(au)'r adolygwr(wyr) sy'n cynnal yr ymweliad. Pan fo aseswr lleyg yn ymweld gyda'r adolygwr, cewch eich hysbysu o flaen llaw.

Rydym yn gwerthfawrogi eich parodrwydd i roi eich amser i'r cyfweliad yn fawr. Mae amserlenni gwaith maes yr adolygiad yn gyfyng fel arfer, ac mae dyddiaduron pobl yn brysur, felly mae bod ar amser yn bwysig i bawb dan sylw (gan gynnwys y tîm cyd-adolygu). Caiff cyfweliadau unigol eu trefnu i bara am rhwng 1 ac 1½ awr, a chyfweliadau grŵp am rhwng 1½ a 2 awr.

Meysydd i'w harchwilio

Mae'r ymweliadau gwaith maes yn ddull allweddol o gael tystiolaeth ynglŷn â'r meysydd sydd i'w harchwilio a fydd yn sail i ddyfarniadau. Mae'r Llawlyfr Cyd-adolygu yn amlinellu'r meysydd hyn, ac wrth ofyn cwestiynau, bydd yr adolygwyr yn canolbwyntio arnynt. Byddwn yn edrych yn benodol ar ddau fater allweddol :

- Pa mor dda y bodlonir anghenion gan y gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd?

- Pa adnoddau sydd gan yr awdurdod lleol er mwyn darparu gwelliannau o ran ansawdd y gwasanaethau hynny?

Byddwn wedi paratoi rhai cwestiynau, yn rhannol er mwyn cadarnhau'r wybodaeth yr ydym eisoes wedi ei derbyn. Yn ogystal â gofyn cwestiynau, rydym yn dymuno sicrhau eich bod yn cael y cyfle i drafod y materion sy'n eich pryderu. Mae gennym gymaint o ddiddordeb yn y pethau hynny sy'n gweithio'n dda ag sydd gennym yn y pethau hynny sydd angen eu gwella.

Cod ymddygiad a chwynion

Mae'n ofynnol i'r tîm cyd-adolygu fodloni safonau ymddygiad uchel iawn wrth wneud eu gwaith. Mae croeso i chi weld y cod ymddygiad sy'n disgrifio'r disgwyliadau hyn.

Os nad ydych yn hapus ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniwyd â chi yn ystod yr ymweliad, mae'r daflen cyd-adolygu yn nodi sut y gallwch gael datrys y mater neu wneud cŵyn.